Cyllid & Thollau EM

# Nodiadau Ffrainc-Unigolyn

## 1. Trethiant dwbl – bod yn agored i dalu treth yn y ddwy wlad

Os oes gennych incwm o un wlad ac yn preswylio mewn gwlad arall, efallai y byddwch yn agored i dalu treth yn y ddwy wlad o dan eu deddfau treth. Er mwyn osgoi 'trethiant dwbl' yn y sefyllfa hon, mae'r Deyrnas Unedig (DU) wedi negodi cytuniadau Trethiant Dwbl (DT) gyda gwledydd sy'n cynnwys Ffrainc. Gellir gweld yr union amodau sy'n berthnasol i'ch incwm o'r DU fel preswylydd yn Ffrainc yn nhestun Confensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc. Mae rhagor o wybodaeth am gytuniadau treth i'w chael yn www.gov.uk/government/collections/tax-treaties

## 2. Diben y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn

Mae'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn yn eich galluogi i wneud cais, o dan Gonfensiwn Trethiant Dwbl y Deyrnas Unedig/Ffrainc, am eithriad rhag Treth Incwm y DU ar Bensiwn y Wladwriaeth neu Fudd-dal Analluogrwydd y DU, a phensiynau, blwydd-daliadau a brynwyd, breindaliadau a llog sydd â'u ffynhonnell yn y DU. Mae'r ffurflen yn caniatáu i chi hawlio ad-daliad Treth Incwm y DU mewn achosion lle y mae taliadau o'r incwm eisoes wedi'u gwneud gyda threth y DU wedi'i didynnu.

## 3. Talebau treth

Nid oes angen anfon talebau treth gyda'ch ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn wedi'i llenwi, ond dylech eu cadw'n ddiogel rhag ofn y bydd eu hangen yn nes ymlaen i ategu'ch hawliad. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch sut rydych wedi llenwi'r ffurflen, gallwch anfon talebau os ydych yn credu y byddant yn ein helpu.

## 4. Tystiolaeth o breswylio yn Ffrainc a ble i anfon y ffurflen wedi'i llenwi

Er mwyn gallu cael rhyddhad rhag Treth Incwm y DU o dan delerau Confensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc, mae'n rhaid i berchennog llesiannol yr incwm fod yn preswylio yn Ffrainc.

Anfonwch y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn wedi'i llenwi i'r *Service des Impôts Particuliers* ar gyfer yr ardal rydych yn byw ynddi.

Bydd y *Service des Impôts Particuliers* yn ardystio eich bod yn preswylio yn Ffrainc at ddibenion Confensiwn Trethiant Dwbl y Deyrnas Unedig/Ffrainc. Yna, rhaid anfon y ffurflen i: Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM, Tŷ Thedford, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9BF.

## 5. Cyfrinachedd

Mae'r holl wybodaeth a roddwch i Gyllid a Thollau EM (CThEM) yn gyfrinachol. Dim ond gyda chi neu unrhyw ymgynghorydd treth a enwir gennych y gallwn drafod eich materion treth.

## 6. Help neu wybodaeth bellach

Os oes angen help neu ragor o wybodaeth arnoch ar ôl defnyddio'r nodiadau hyn:

- ffoniwch CThEM ar + 44 300 200 1900 os ydych yn galw o'r tu allan i'r DU
- neu ffoniwch CThEM ar 0300 200 1900 os ydych yn galw o'r DU
- ysgrifennwch at: Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM, Tŷ Thedford, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9BF

Rhowch eich cyfeirnod CThEM os byddwch yn cysylltu â ni.

## 7. Llenwi'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn

Defnyddiwch y nodiadau canlynol i'ch helpu i lenwi Rhannau A i F o'r ffurflen. Dylech wneud y canlynol:

- cynnwys ar y ffurflen dim ond yr incwm yr ydych yn hawlio rhyddhad arno rhag treth y DU o dan ddarpariaethau Confensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc
- rhoi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani ac atodi unrhyw ddogfennau ategol y gofynnir amdanynt. Os oes angen rhagor o le arnoch, atodwch ddalen ar wahân, gan ysgrifennu'ch enw a'ch cyfeirnod Cyllid a Thollau EM ar bob dalen ychwanegol

### Rhan A Manylion personol yr hawliwr

Rhowch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt. Os oes gennych ymgynghorydd treth, nodwch fanylion yr ymgynghorydd treth.

### Rhan B Cwestiynau

Ticiwch yr holl flychau sy'n berthnasol i chi a rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani.

Rhowch linell drwy'r holl adrannau sydd heb eu defnyddio neu sydd wedi'u llenwi'n rhannol.

### Rhan C Cais am eithriad rhag Treth Incwm y DU

Mae Confensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc yn darparu ar gyfer y buddiannau canlynol:

- ni chaiff treth y DU ei chadw yn ôl o daliadau pensiynau a blwydd-daliadau
- ni chaiff treth y DU ei chadw yn ôl o daliadau llog a breindaliadau

Rhowch y manylion y gofynnir amdanynt yn Rhan C i wneud cais am eithriad rhag Treth Incwm y DU ar daliadau incwm yn y dyfodol. Efallai y bydd eithriad ar gael mewn achosion lle y gall CThEM arfer ei ddisgresiwn i anfon hysbysiad (o dan Offeryn Statudol 1970 Rhif 488, fel y'i diwygiwyd) ar gyfer taliadau llog a breindaliadau. Rydym yn delio â phob cais yn ôl ei deilyngdod. Os na allwn gytuno i ganiatáu rhyddhad wrth y ffynhonnell, neu os na allwn drefnu hynny, gallwch hawlio ad-daliad o dreth y DU a ddidynnwyd.

Os rhoddir eithriad, rhowch wybod i CThEM yn y cyfeiriad yn Nodyn 6, yn ddi-oed, os oes unrhyw newid dilynol i'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi ar y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn.

### C1 Pensiwn y Wladwriaeth a Budd-dal Analluogrwydd y DU

Mae Pensiwn y Wladwriaeth y DU, neu Fudd-dal Analluogrwydd y DU, fel arfer yn agored i Dreth Incwm y DU. Fel preswylydd yn Ffrainc, gallwch wneud cais i gael yr incwm hwn wedi'i eithrio rhag Treth Incwm y DU.

### Pensiwn y Wladwriaeth

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn fudd-dal sy'n gysylltiedig ag Yswiriant Gwladol ac mae'n drethadwy, ond fel arfer fe'i telir heb ddidynnu treth. Os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth y DU, gallwch hawlio eithriad rhag Treth Incwm y DU o dan Gonfensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc. Yn Rhan C1 o'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn, ticiwch y blwch 'Pensiwn y Wladwriaeth y DU' a rhoi'r dyddiad y dechreuodd y taliadau.

### Cyfandaliad ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth Gohiriedig
Os ydych wedi cael cyfandaliad ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth Gohiriedig y didynnwyd treth y DU ohono, gweler Rhan D o'r nodiadau hyn.

### Budd-dal Analluogrwydd
Fel Pensiwn y Wladwriaeth, mae Budd-dal Analluogrwydd yn drethadwy ond fe'i telir heb ddidynnu treth. Os ydych yn cael Budd-dal Analluogrwydd, gallwch hawlio eithriad rhag Treth Incwm y DU o dan Gonfensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc. Yn Rhan C1 o'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn, ticiwch y blwch 'Budd-dal Analluogrwydd y DU' a rhoi'r dyddiad y dechreuodd y taliadau.

## C2 Pensiynau a blwydd-daliadau a brynwyd sydd â'u ffynhonnell yn y DU
Gellir eithrio rhai mathau o bensiwn a'r mwyafrif o flwydd-daliadau o'r DU, a delir i chi fel preswylydd yn Ffrainc, rhag Treth Incwm y DU.

Os trethir y pensiwn a/neu'r blwydd-dal o dan y system TWE (Talu Wrth Ennill), bydd unrhyw addasiad yn mynd yn ôl i'r diweddaraf o'r canlynol:

- y dyddiad y daethoch yn breswylydd yn Ffrainc at ddibenion treth y wlad honno
- y dyddiad y dechreuodd taliadau'r incwm
- blwyddyn dreth gynharaf y DU sy'n parhau i fod yn gyfredol ar gyfer hawlio ad-daliad Treth Incwm y DU

Anfonwch lungopi gyda'ch ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn o'r P60 diweddaraf a gawsoch gan dalwr eich pensiwn. Bydd hyn yn ein helpu i wneud yr addasiad.

### Llywodraeth y DU ac awdurdod lleol
Mae pensiynau a delir gan y DU am wasanaeth i Lywodraeth y DU neu awdurdod lleol yn drethadwy yn y DU. Ond os ydych, fel eithriad, yn wladolyn (ac yn breswylydd) yn Ffrainc heb fod yn wladolyn y DU hefyd, defnyddiwch y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn i hawlio eithriad rhag treth y DU ar eich pensiwn.

Os bydd eich pensiwn yn cael ei drethu yn y DU, efallai y gallwch hawlio lwfansau personol y DU, ar yr amod eich bod yn bodloni rhai amodau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych yn dymuno gwneud hawliad, cysylltwch â CThEM yn y cyfeiriad yn Nodyn 6.

### Incwm a dalwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010
Mae Confensiwn Trethiant Dwbl (DTC) cyfredol y DU/Ffrainc yn berthnasol i incwm a dalwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010. O dan y DTC hwn, mae pensiwn a delir am wasanaethau i Lywodraeth y DU neu awdurdod lleol yn drethadwy yn y DU. Ond os ydych, fel eithriad, yn wladolyn (ac yn breswylydd) yn Ffrainc heb fod yn wladolyn y DU hefyd, defnyddiwch y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn i hawlio eithriad rhag treth y DU ar eich pensiwn.

### Incwm a dalwyd cyn 6 Ebrill 2010
Roedd DTC blaenorol (1968) y DU/Ffrainc yn berthnasol i incwm a dalwyd cyn 6 Ebrill 2010. O dan y DTC hwn, nid oedd rhyddhad rhag Treth Incwm y DU ar gael i chi fel preswylydd yn Ffrainc sy'n cael pensiwn Llywodraeth y DU neu awdurdod lleol.

Os yw'r rheolau hyn yn golygu y bydd eich pensiwn yn cael ei drethu yn y DU, efallai y gallwch hawlio lwfansau personol y DU, ar yr amod eich bod yn bodloni rhai amodau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych yn dymuno gwneud hawliad, cysylltwch â CThEM yn y cyfeiriad yn Nodyn 6.

## C3 Llog y DU
Gellir talu llog i chi heb ddidynnu treth y DU. Gellir ad-dalu treth y DU sydd wedi'i didynnu yn llawn i chi.

### Llog o warantau
Didynnir treth y DU o log ar stociau benthyciadau a gyhoeddir gan y canlynol:

- cwmnïau sydd heb eu rhestru ar y Gyfnewidfa Stoc
- awdurdodau lleol

Fel yr eglurwyd yn y rhagarweiniad i Ran C o'r nodiadau hyn, efallai y byddwn yn gallu trefnu bod llog ar y stociau hyn yn cael ei dalu heb ddidynnu treth y DU.

Telir llog o'r ffynonellau canlynol yn y DU heb ddidynnu treth y DU, felly nid oes angen gwneud cais am ryddhad rhag treth y DU wrth y ffynhonnell. Peidiwch â nodi'r canlynol yn Rhan C3 o'r ffurflen:

- llog o stociau benthyciadau cwmni a restrir ar y Gyfnewidfa Stoc (a delir yn awtomatig heb ddidynnu treth y DU)
- llog o warantau Llywodraeth y DU (a delir yn awtomatig heb ddidynnu treth y DU)
- llog o fanciau a chymdeithasau adeiladu y DU (a delir yn awtomatig heb ddidynnu treth y DU)

Os ydych eisoes wedi cael unrhyw log gyda threth y DU wedi'i didynnu, gallwch hawlio ad-daliad o'r dreth. Gweler Rhan D o'r ffurflen.

### Llog arall
Os ydych yn cael llog o fenthyciadau a drefnwyd yn breifat, rhowch y manylion canlynol ar ddalen ar wahân:

- enw a chyfeiriad talwr y llog yn y DU
- dyddiad y cytundeb benthyciad
- swm y benthyciad
- dyddiadau dyledus y llog

Atodwch gopi o'r cytundeb benthyciad hefyd.

## Rhan C4 Breindaliadau
Gellir talu'r mwyafrif o freindaliadau i chi heb ddidynnu treth. Gall unrhyw dreth yn y DU sydd wedi'i didynnu gael ei had-dalu'n llawn i chi. Mae'r Confensiwn Trethiant Dwbl yn caniatáu rhyddhad i berchennog llesiannol y breindaliadau yn unig. Fel rheol, y perchennog llesiannol yw dechreuwr y gwaith neu'r cynnyrch.

### Breindaliadau hawlfraint ar gyfer gweithiau llenyddol, dramatig, cerddorol neu artistig
Os nad chi yw'r dechreuwr, ond rydych wedi caffael yr hawliau, atodwch i'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn gopi o'r drwydded, y contract neu'r aseiniad a barodd i chi gaffael hawliau'r DU. Bydd hyn yn helpu CThEM i wirio bod yr amod perchnogaeth fuddiannol yn y Confensiwn Trethiant Dwbl yn cael ei fodloni.

### Breindaliadau eraill
Atodwch i'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn gopi o'r cytundeb trwydded rhyngoch chi a thalwr y breindaliadau yn y DU. Os nad chi yw dechreuwr y cynnyrch a arweiniodd at y breindaliadau, ond rydych wedi caffael yr hawliau, atodwch gopi o'r drwydded, y contract neu'r aseiniad a barodd i chi gaffael hawliau'r DU.

## Rhan D Hawlio ad-daliad Treth Incwm y DU
## Taliadau Cymudiad Pensiwn Pitw
O 6 Ebrill 2006 ymlaen, gall cynlluniau pensiwn cofrestredig a chwmnïau yswiriant bywyd dalu 'Taliadau Cymudiad Pensiwn Pitw'. Mae hyn yn golygu, yn lle cael pensiwn blynyddol neu flwydd-dal bach, y telir cyfandaliad sengl. Mae treth y DU yn cael ei chymryd oddi ar y symiau hyn o dan y rheolau TWE (Talu wrth Ennill) arferol.

Os ydych wedi cael Taliad Cymudiad Pensiwn Pitw ac, ar y dyddiad y talwyd y cyfandaliad roeddech yn preswylio at ddibenion treth yn Ffrainc, gallwch hawlio ad-daliad o'r dreth a ddidynnwyd. Ewch ati i:

- nodi manylion y cyfandaliad yn Rhan D o'r ffurflen
- atodi Rhannau 2 a 3 o'r ffurflen P45 a gawsoch gan dalwr y cyfandaliad

## Llog

Fel yr eglurir yn y nodiadau hyn, mae Confensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc yn caniatáu i chi gael eithriad rhag Treth Incwm y DU ar log a breindaliadau. Os ydych wedi cael taliadau llog neu freindaliadau y didynnwyd treth y DU ohonynt, gallwch hawlio ad-daliad treth y DU. Nodwch y manylion y gofynnwyd amdanynt yn Rhan D o'r nodiadau hyn.

## Cyfandaliad ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth Gohiriedig

Os ydych wedi cael cyfandaliad ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth Gohiriedig y didynnwyd treth y DU ohono, gwnewch y canlynol:

- llenwch Ran C1 i hawlio eithriad rhag Treth Incwm y DU ar gyfer taliadau Pensiwn y Wladwriaeth
- nodwch yn Rhan D swm y cyfandaliad a swm y dreth a ddidynnwyd

Anfonwch lungopi gyda'ch ffurflen o'r hysbysiad o ddyfarnu cyfandaliad a gawsoch gan y Gwasanaeth Pensiwn. Bydd hyn yn ein helpu i wneud yr ad-daliad.

## Breindaliadau

Fel yr eglurir yn y nodiadau hyn, mae Confensiwn Trethiant Dwbl y DU/Ffrainc yn caniatáu i chi gael eithriad rhag Treth Incwm y DU ar freindaliadau. Os ydych wedi cael breindaliadau y didynnwyd treth y DU ohonynt, gallwch hawlio ad-daliad ar gyfer treth y DU. Rhowch y manylion y gofynnir amdanynt yn Rhan D.

## Incwm o ymddiriedolaeth neu ystâd

Os ydych yn cael taliadau gan ymddiriedolaeth neu ystâd, ysgrifennwch enw'r ymddiriedolaeth neu'r ystâd yn y blwch ffynhonnell incwm yn Rhan D o'r ffurflen. Os ydych wedi cael taliad gan ymddiriedolaeth amodol, ysgrifennwch enw'r ymddiriedolaeth a'i chyfeirnod treth yn y DU yn y blwch ffynhonnell incwm yn Rhan D.

Bydd CThEM yn talu'r holl swm a ddangosir fel credyd treth ar y gyfradd ymddiriedolaeth a ddangosir yn yr R185 (Incwm o Ymddiriedolaeth) a anfonwyd atoch gan yr ymddiriedolwyr.

## Rhan E Manylion taliadau ac awdurdod

### E1 Taliad i enwebai

Dim ond os ydych am i CThEM wneud unrhyw ad-daliad i enwebai ar eich rhan y dylech lenwi Rhan E. Byddwn yn anfon yr ad-daliad drwy'r post yn syth i gyfeiriad eich enwebai, felly bydd angen i chi roi'r cyfeiriad post llawn ynghyd â manylion eraill y gofynnir amdanynt yn y ffurflen.

### E2 Taliad i chi mewn cyfeiriad arall

Os ydych am i CThEM anfon yr ad-daliad atoch mewn cyfeiriad nad yw'n gyfeiriad preswyl i chi, rhowch fanylion yn Rhan E2.

## Rhan F Datganiad

Rhaid i chi lofnodi'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn yn bersonol yn Rhan F.

Gallwch hawlio ar ran y canlynol:

- plentyn dan oed dibriod (rhywun o dan 18 oed)
- person sy'n anabl yn feddyliol
- rhywun sydd wedi marw

Dylai hawliadau fel arfer gael eu gwneud gan y canlynol:

- rhiant neu warcheidwad ar ran plentyn dan oed dibriod
- y person a awdurdodwyd gan y llysoedd i ofalu am faterion oedolyn sy'n anabl yn feddyliol (neu benodai'r Adran Gwaith a Phensiynau)
- ysgutor neu weinyddwr ystâd rhywun sydd wedi marw (bydd yr hawliad yn ymwneud ag incwm hyd at ddyddiad y farwolaeth yn unig)

Gofynnwch i CThEM os nad ydych yn siŵr ai chi yw'r person iawn i wneud yr hawliad. Cofiwch y gall cyfeiriadau at 'chi' ac 'eich' fod yr un mor berthnasol i'r person yr ydych yn hawlio ar ei ran yn y nodiadau hyn ac yn y ffurflen.

## Taflen waith

### Treth y DU wedi'i didynnu oddi ar log: cyfrifo faint o dreth sy'n ad-daladwy

Gallwch ddefnyddio'r blychau isod i gyfrifo swm ad-daliad treth y DU ar daliadau llog. Os ydych yn:

- dymuno peidio â chyfrifo'r ad-daliad, ac nid ydych yn nodi swm yn adran Datganiad y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn, bydd CThEM yn cyfrifo unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus i chi
- derbyn incwm o ymddiriedolaeth neu ystâd, peidiwch â chwblhau'r camau hyn - gweler Rhan D o'r nodiadau hyn, sy'n sôn am incwm o ymddiriedolaeth amodol

**Cam 1**

Nodwch swm y llog cyn treth y DU ym mlwch 1 a nodwch faint o dreth y DU a ddidynnwyd ym mlwch 2. Cymerwch y ffigurau hyn o'r blychau cyfanswm yn Rhan D o'r ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn.

| Incwm cyn treth y DU | Treth y DU a ddidynnwyd |
|---|---|
| 1 £ . | 2 £ . |

**Cam 2**

Cyfrifwch 10% o gyfanswm y llog (ym mlwch 1) a nodwch y canlyniad ym mlwch 3.

Cyfanswm y llog

3 £ .

**Cam 3**

Tynnwch y swm ym mlwch 3 o'r swm (ym mlwch 2) a nodwch y canlyniad ym mlwch 4.

Cyfanswm

4 £ .

**Cam 4**

Yn olaf, cymerwch y swm rydych wedi'i ddangos ym mlwch 4 a'i nodi ar y ffurflen DT Ffrainc-Unigolyn yn yr adran Datganiad. Dyma faint o Dreth Incwm y DU sy'n ad-daladwy i chi.